# W. J. EDWARDS yn Cofio yr hen Olygydd

YR OEDD y Parchedig Iorwerth Jones, M.A., B.D., a fu farw ar 15 Mawrth yn ŵr a gyfrannodd yn helaeth i'n llên a gan iddo fod ymhlith golygyddion gorau ei genhedlaeth y mae'n briodol teyrngedu iddo yn *Y Casglwr.*

Ganwyd Iorwerth yn Lerpwl a chroniclodd ei atgofion difyr yn *Dyddiau Lobsgows yn Lerpwl* (Tŷ John Penry, 1988) sy'n ddogfen hanesyddol o bwys am ei bod yn manylu ar fywyd y Cymry ar Lannau Mersi yn nawdegau cynnar y ganrif.

Ar wahân i sôn am ddylanwad y ddau gapel yn Trinity Road, Bootle, a Great Mersey Street arno ceir penodau yn cyfeirio at ei brofiadau addysgol. Clywais ef yn sôn am ei fam yn cael ei galw i'r ysgol er mwyn i'r prifathro ddweud wrthi am beidio siarad Cymraeg gyda'i mab am y buasai hynny'n rhwystr iddo feistroli'r iaith fain.

Yr oedd Iorwerth yn dragwyddol ddiolchgar i'w fam am ddweud wrth y Sais hwnnw y daliai hi i lefaru'r Gymraeg wrth ei mab ac mai ei gyfrifoldeb ef oedd dysgu Saesneg iddo. Gresyn na bai mwy o famau tebyg iddi.

Ceir penodau yn y gyfrol hefyd sy'n sôn am feirdd a llenorion o blith y Cymry alltud gyda Gwilym Deudraeth yr enwocaf yn eu plith. 'Y Theatr a'i Hamrywiaeth' yw pennawd pennod arall ac yn 'Y Gleision a'r Cochion', manylu ar gampau'r bêl-droed yn Anfield a Goodison y mae Iorwerth.

Cefnogi'r gleision yn Everton a wnâi ef ac un o'i arwyr oedd yr enwog Dixie Dean. Dywed fod rhyw wág amharchus wedi ychwanegu at boster gyda 'Jesus Saves' arno, y geiriau, 'And Dean nets the re-bound!'

* * *

PAN AETH Iorwerth i Goleg Bala-Bangor ar ddechrau'r tridegau yr oedd yno griw disglair yn eistedd wrth draed John Morgan Jones a J. E. Daniel, ac yn ôl ei gyfoedion y llanc o Lerpwl oedd y mwyaf galluog ohonynt. Graddiodd gydag anrhydedd mewn Athroniaeth ac enillodd Wobr Gladstone yng Ngholeg y Brifysgol am draethawd ar 'Ddylanwad Anghydffurfiaeth ar Wleidyddiaeth Prydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg'.

Ordeiniwyd Iorwerth ym Mhant-teg, Ystalyfera yn 1938 ac ar wahân i ofalu am eglwys gref gyda chyfarfodydd bob nos o'r wythnos gan gynnwys Gobeithlu ar nos Sadwrn, bwriodd iddi i lenydda. Enillodd ddwy wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y pedwardegau, am draethawd ac am ddyddlyfr.

Cyhoeddodd Cymdeithas Heddychwyr Cymru bamffledyn o'i waith, *Satyagraha: Grym Di-drais*, ac ym 1949 golygodd y rhifyn cyntaf o'r *Crynhoad*, y *Digest*, Cymraeg gwerthfawr y bu Iorwerth yn gofalu amdano ar ei ben ei hun am dair blynedd. Mae'n adrodd hanes y cylchgrawn yn *Y Casglwr*, rhif 16, Mawrth 1982, a gresyn iddo ddod i ben yn 1954. Gwasg y Brython oedd yn argraffu'r cylchgrawn ond Iorwerth ei hun oedd yn gyfrifol am ei gyhoeddi a'i olygu.

Pan wahoddwyd Iorwerth i olygu misolyn yr Annibynwyr *Y Dysgedydd* yn 1952, cafodd gymorth ei gyfaill R. Leonard Hugh gyda'r *Crynhoad*, a Dewi ac Olwen Samuel a olygodd y pedwar rhifyn a gyhoeddwyd rhwng dechrau 1953 a dechrau 1954. 'Rwy'n falch fod y rhifynnau i gyd ar fy silff.

Cafodd *Y Dysgedydd* olyniaeth o olygyddion disglair oddi ar ei sefydlu yn 1821 gan Cadwaladr Jones, Dolgellau (brodor o Lanuwchllyn) a ofalodd amdano hyd 1852 ac a adwaenid fel 'Yr Hen Olygydd'. Golygodd Iorwerth y misolyn hyd 1968 pan unwyd *Y Dysgedydd* a'r *Drysorfa* yn *Porfeydd*, gyda Iorwerth yn olygydd cyntaf y cylchgrawn newydd.

Trysoraf y rhifynnau o'r *Dysgedydd* y bu Iorwerth yn gofalu amdanynt ac ar wahân i'w sylwadau golygyddol yn y golofn 'Cnoi Cil', ef hefyd oedd yn sgrifennu colofnau'r 'Medelwr' a 'Bugail y Cwm'.

* * *

YN 1972 gwahoddodd yr Annibynwyr Iorwerth i olygu wythnosolyn yr enwad, *Y Tyst*, a bu ei gyfnod yn y gadair yn un nodedig gan y byddai bob wythnos yn rhoi inni arweiniad cadarn a diogel. Bu raid iddo roi heibio'r cyfrifoldeb pan wahoddwyd ef i olynu ei gyfaill Trebor Lloyd Evans yn Ysgrifennydd Undeb yr Annibynwyr yn 1975.

Yn ei deyrnged iddo dywed y Dr. Tudur Jones fod Iorwerth 'yn un o newyddiadurwyr medrusaf ei genhedlaeth, fel y gwelwyd pan olygai'r *Dysgedydd* a'r *Tyst* ar ôl hynny'. Ac yn ôl ei olynydd Derwyn Morris Jones, 'yr oedd yn hynod o fedrus a bywiog fel golygydd'.

Yn 1959 galwyd Iorwerth i weinidogaethu yng Nghapel Als, Llanelli, yn olynydd i'r Prifardd D.J. Davies ac yn 1971, cyhoeddodd Gwasg John Penry ei gyfrol gampus, *David Rees y Cynhyrfwr.* Derbyniodd Wobr Goffa Ellis Griffith am y gyfrol fel y cyfraniad gorau i hanes Cymru y flwyddyn honno, a dyfarnwyd iddo hefyd radd M.A. Prifysgol Cymru.

Gyda marw Iorwerth Jones collodd Cymru athronydd praff, pregethwr gafaelgar a phroffwydol, llenor mawr ei ddawn, a golygydd tra nodedig.


## R.G. & J.E. YOUNG

**"Llwyn", 14 Gwaun Canol, Cricieth, Gwynedd, LL52 0TB. Ffôn: Cricieth 522643**

**Llyfrau prin a hen, Mapiau, Printiau ar werth ac yn eisiau.**
**Cludiant yn ychwanegol**

1840 H. GASTINEAU. 'Wales Illustrated in a Series of Views.' 117 o luniau gan gynnwys y teitl a 88 o Ogledd Cymru a'r gweddill o Ganol a De Cymru. 8½" × 10½". Lledr du. Cefn wedi gwisgo, mymryn o ôl pry ond y platiau, at ei gilydd, yn lanwaith.......... £105.00

*c.* 1820 REED & WALLIS. 'Welch Counties.' Yr adran o'r Atlas, tud. 147-158. Manylion am drefi, ffeiriau, etc. 3" × 4¾". Deuddeg o fapiau lliw bach yn dangos trefi, lonydd post, etc. Rhan Cymru o'r atlas ar ei ben ei hun.......... £85.00

*c.* 1636 Tudalennau 659 i 684 o CAMDEN'S BRITTANIA, yn cynnwys chwe map a'r testun, sef Môn, Dinbych, Fflint, Caernarfon a Maldwyn. 8©" × 12½". Wedi ei ddi-rwymo. Map Môn yn dudalen gyfan, a'r gweddill yn ddwy ddalen. Gweddol brin.......... £270.00

1924 HUGHES-NORTH. 'The Old Churches of Snowdonia.' Lluniau, 285tud, lliain, label bapur ar y clawr a'r cefn. Enw cyn-berchennog ar y ddalen flaen, a'r gweddill yn lân.. £25.00

1710 COLLECTION BY J. D. FLORES POETARUM BRITTANNICORUM. 94tud. 3" × 5". Dalen deitl wedi gwisgo. Rhwymiad lledr. At ei gilydd copi glân o lyfr Cymreig prin.......... £125.00

1774 GEORGE LORD LYTTELTON, THE WORKS OF, FORMERLY PRINTED SEPARATELY & NOW COLLECTED TOGETHER WITH SOME OTHER PIECES NEVER BEFORE PRINTED. Cyhoeddwyd gan G. E. Ayscough (nai Lyttelton). 9" × 11" × 2" (trwch), 751 tud. Rhwymiad lledr llawn. Rhai plygiadau'n wan. Plât o Tan y Bwlch, Meirionydd, ar y clawr. Tud. 27 yn rhydd, ond copi glân fel arall. Tud. 735-751 yn cyfeirio at hanes siwrnai i Gymru mewn dau lythyr at Mr Bower. Mae'r rhan Gymreig o'r gyfrol yn weddol brin. Ac fel hyn yr ysgrifennodd Lyttelton yn 1756: 'Bala is most famous for the beauty of its women & indeed I there saw some of the prettiest girls I ever saw.'...... £125.00

1917 ROYAL COMMISSION OF UNIVERSITY EDUC. IN WALES. Atodiad i adroddiad cyntaf y Comisiynwyr. Cofnod o dystiolaeth Hydref 1916 — Tachwedd 1916, gyda atodiadau a chyfeirnodau. 13" × 8". 328 tud. Clawr papur glas wedi gwisgo. Cynnwys yn lân.......... £30.00

1941 THE LLANFAIR ESTATES Nr Caernarvon & Pwllheli 2780 acer. Catalog yr arwerthiant a phedwar map plygedig. 75 tud, 12" × 8". Cloriau papur yno ond wedi eu gwahanu. Cynnwys glân.......... £15.00

1920 THOMAS RICHARDS: 'History of the Puritan Movement in Wales.' Rhagair gan J. E. Lloyd. 8" × 5", 306 tud. Lliain gwyrdd. Cyflwr da iawn.......... £10.00

1912 Ed. Arthur Lewis: THE MEDIAEVAL BOROUGHS OF SNOWDONIA. 8" × 5", 320 tud. Lliain coch. Teitl wedi ei euro ar y cefn. Gweddol brin erbyn hyn.......... £33.00

1944 IORWERTH C. PEATE: 'The Welsh House.' Ail arg. Darluniau. 8½" × 5½", 204 tud, a llawer llun. Lliain llwyd. Cynnwys glân.......... £20.00

1931 FRANK WARD: 'The Lakes of Wales.' 8½" × 5½", 264 tud. lluniau. Lliain gwyrdd.......... £30.00

1900 J. E. GRIFFITH: 'The Cromlechs of Anglesey & Caernarvonshire.' Ail-rwymwyd lliain coch. Teitl wedi ei euro ar y wyneb. 12" × 10", 44 o luniau. Llai na chant o gopïau wedi eu rhoi ar werth. Cyflwr glân.......... £90.00

1850 B. B. WOODWARD: 'History of Wales.' 9½" × 7". Hanner lledr glas. 552 tud, 67 o luniau (engrafiadau dur), copi anghyflawn — dylai fod yn 608 tud., gyda 76 o engrafiadau. Peth staenio ac fe'i gwerthir yn anghyflawn am werth yr engrafiadau sy' ynddo.......... £70.00

1795 WILLIAM GRIFFITHS: 'A Practical Treatise on Farriery.' Ail arg. Wyneb ddalen gan H. Bunbury — portread. Ail rwymwyd lledr cyflawn gan Baynton. Teitl wedi ei euro ar y cefn. Copi tanysgrifiwr gyda amryw nodiadau a rysetiau gan gyn-berchenogion. Yn y rhagymadroddion cynhwysir enwau Thomas Clark a C. Wright. 8" × 10". 184 tud, ynghyd â 15 tud. o gynhwysiad a rhestr tanysgrifwyr. Roedd yr awdur yn gofalu am geffylau Wynnstay. Copi diddorol.......... £350.00